

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2021.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

27 Awst 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Senedd

Dod i rym

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau. Bydd y gyfraith yng Nghymru yn berthnasol i deithwyr waeth pa borthladd y byddant yn cael mynediad drwyddo.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Mae **Montenegro a Gwlad Thai** wedi'u dileu o'r "rhestr oren" ac wedi'u hychwanegu at y "rhestr goch" o wledydd a thiriogaethau
- Mae'r **Açores, Canada, Denmarc, y Ffindir, Liechtenstein, Lithwania a'r Swistir** wedi'u dileu o'r "rhestr oren" ac wedi'u hychwanegu at y "rhestr werdd" o wledydd a thiriogaethau
- Ni fydd yn rhaid i bobl ifanc dan oed sy'n teithio ar eu pen eu hunain o wledydd sydd ar y rhestr goch i fynychu addysg uwch fynd i gwarantyn a reolir yn Lloegr (yn hytrach byddant yn ynysu mewn llety yng Nghymru).

- Ychwanegu'r digwyddiadau canlynol ar y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig:
 - **Cystadleuaeth y Champions Hockey League**
 - **Rowndiau rhagbrofol Cwpan y Byd FIH i Ddynion (grŵp Ewropeaidd)**

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol eisoes yn caniatáu i bobl ifanc dan oed (o dan 18 oed) sydd ar eu pen eu hunain ac sy'n teithio o wlad sydd ar y rhestr goch fynychu ysgol breswyl neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru ynysu yn eu cyrchfan yn hytrach nag mewn llety sy'n eiddo i ysgol neu goleg ac i'r rhai sy'n aros gyda theuluoedd sy'n derbyn plant. Mae'r eithriad yma bellach wedi'i estyn i gynnwys unrhyw fyfyrwr o dan 18 oed o wledydd sydd ar y rhestr goch sy'n cyrraedd er mwyn mynychu addysg uwch. Bydd hyn yn sicrhau bod y myfyrwyr hyn yn cael eu trin yn deg ac mewn modd sy'n gyson â dull Llywodraeth y DU.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.